DARGANFYDDWCH 58 SAFLE UNESCO YN Y DU

O gadwyni o fynyddoedd mawreddog ac arfordiroedd syfrdanol i ddinasoedd bywiog a thirluniau gwledig - mae safleoedd UNESCO'r DU yn gyrchfannau o dreftadaeth naturiol a diwylliannol o'r radd flaenaf.

Pa un wnewch chi'i ddarganfod nesaf?

Mathau o safleoedd UNESCO:

- Gwarchodfeydd biosffer
- Dinasoedd creadigol
- Geoparciau byd-eang
- Safleoedd Treftadaeth y Byd

MUR ANTONINUS

Croeso i ffin fwyaf gogleddol yr Ymerodraeth Rufeinig. Wedi'i adeiladu tua AD 142, roedd y mur hwn yn cynnwys nifer o gaerau ac yn cael ei batrolio gan 7,000 o filwyr. Heddiw, gallwch ymweld â rhagfuriau pridd, adfeilion caerau a baddondy, dros 62 km ar hyd canolbarth yr Alban.

www.antoninewall.org

BELFFAST, DINAS CERDD

O gigs bach i enwau mawr y byd, mae Belffast yn gwybod yn union beth yw cerddoriaeth wych. Mae'r ddinas yn cynnig digwyddiadau proffil uchel, ac mae cerddoriaeth wedi'i gweu i mewn i leoedd cyhoeddus er mwyn sicrhau bod pawb sy'n ymweld â, yn byw yn ac yn gweithio o fewn y ddinas yn profi buddion cerddoriaeth.

www.visitbelfast.com/article/a-guide-to-belfasts-music-scene

BIOSFFER DYFI

Credit: VisitWales

Archwiliwch dirluniau sy'n ysbrydoli ar droed neu ar gefn beic. Mae Biosffer Dyfi yn cynnwys tref prifysgol gyfeillgar Aberystwyth a Dyffryn Dyfi. O rostiroedd mawn uchel ac aber llydan i dwyni tywod, gall anturwyr fwynhau bywyd gwyllt coetiroedd, tir fferm a morfa heli.

www.dyfibiosphere.wales

CESTYLL A MURIAU TREFI'R BRENIN EDWARD YNG NGWYNEDD

Credit: Valeria2000

Mae cestyll Caernarfon, Conwy, Harlech a Biwmares, a muriau Caernarfon a Chonwy, yn rhai o'r esiamplau mwyaf trawiadol o bensaernïaeth filwrol ganoloesol. Adeiladwyd y cestyll gan Edward I (1272-1307) mewn cyfnod cythryblus pan oedd brenhinoedd Lloegr a thywysogion Cymru yn ymladd dros bŵer, ac roedd y gwaith adeiladu ar raddfa hollol newydd.

cadw.llyw.cymru/ymweld/hanes-ar-ei-orau/cestyll-a-muriau-trefir-brenin-edward

DINAS CAERFADDON A THREF SBA FAWR EWROP

Yn eithriadol gan fod ganddi ddau enwebiad UNESCO, fe'i cynhwyswyd yn 1987 oherwydd y ffynnon boeth, archaeoleg Rufeinig, adeiladau Sioraidd a lleoliad mewn tirlun naturiol. Yn 2021, fe'i dynodwyd hefyd yn un o Drefi Sba Mawr Ewrop – trefi sba ffasiynol wedi'u cynllunio o gwmpas ffynhonau naturiol.

www.visitbath.co.uk/things-to-do

TIRWEDD MWYNGLODDIO CERNYW A GORLLEWIN DYFNAINT

Credit: Andycox67

Gyda mwy na 200 o safleoedd peiriandai eiconig Cernywaidd dros 19,710 hectar, hwn yw'r safle Treftadaeth Diwydiannol y Byd mwyaf o'i fath yn y DU. Mae'n dyst i un o'r cyfnodau mwyaf o newid economaidd, technolegol a chymdeithasol yn hanes Prydain.

www.cornishmining.org.uk

ARDAL LLYNNOEDD CUILCAGH

Credit: Dawid

Mae Geoparc Byd-eang Trawswladol cynta'r byd yn rhoi cyfle i ymwelwyr fwynhau'r gorau o'r rhanbarth digyffwrdd hwn ar y ffin. Mae Ardal Llynnoedd Cuilcagh yn cynnwys mynyddoedd a llynnoedd mewn ehangder o gefn gwlad sy'n estyn o Lower Lough Erne i Lough Oughter.

www.cuilcaghlakelands.org

MELINAU CWM DERWENT

Man geni'r system ffatri, lle harneisiwyd dŵr am y tro cyntaf, gan hebrwng yr oes ddiwydiannol fodern i mewn. Heddiw, gellir gweld y melinau hyn yn eu lleoliad trawiadol yn y cwm, gyda rhai ohonynt braidd heb newid mewn dros 200 mlynedd.

www.derwentvalleymills.org

ARFORDIR DORSET A DWYRAIN DYFNAINT

Tirlun amrywiol a phrydferth gyda daeareg anhygoel o bwysigrwydd byd-eang. Mae'r cerrig, ffosiliau a thirffurfiau yn rhychwantu'r cyfnod Mesosôig cyfan ac yn cynnig mewnwelediad arbennig i 185 miliwn o flynyddoedd o newid ac esblygiad amgylcheddol.

www.jurassiccoast.org

FFOREST FAWR

Cacen greigiau haenog, craciog a chrychlyd a ffurfiwyd dros fwy na 470 miliwn o flynyddoedd. Tirwedd wedi'i cherflunio gan rew ac wedyn ei thrawsnewid gan ddyn – tyst i enedigaeth y Chwyldro Diwydiannol.

www.fforestfawrgeopark.org.uk

PONT FORTH

Gyda'i chynllun gantilifrog nodweddiadol a'i maint anferthol, mae Pont Forth yn un o strwythurau peirianyddol mwyaf eiconig y byd. Fel Safle Treftadaeth y Byd a phont reilffordd weithredol, mae hi'n parhau i fod yn symbol grymus o dreftadaeth ddiwydianol, wyddonol, bensaernïol a thrafnidiaeth Prydain.

www.theforthbridges.org

GALLOWAY A DE SWYDD AYR

Credit: geoengineerdthilox

Cartref i fywyd gwyllt mwyaf eiconig yr Alban. O gynefinoedd yr ucheldir, drwy gymoedd bras, ac i lawr i arfordir garw'r de-orllewin, mae hwn yn fan ar gyfer darganfod ac ysbrydoliaeth – man lle gall pobl gysylltu â natur.

www.gsabiosphere.org.uk

GEOMÔN

Yn gartref i'r ffosiliau hynaf yng Nghymru a Lloegr, Môn yw ynys fwyaf Cymru, a chanddi 120 milltir o arfordir. Mae'r geo-dreftadaeth drawiadol yn adnodd ar gyfer addysg a hamdden, a hynny i ymwelwyr a thrigolion y Geoparc Byd-eang.

www.geomon.co.uk

SARN Y CAWR AC ARFORDIR Y SARN

Credit: Alexey Fedorenko

Mae'r arfordir dramatig o gwmpas Sarn y Cawr wedi ysbrydoli chwedlau. Mae astudiaethau o'r ardal dros y 300 mlynedd diwethaf wedi gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygiad gwyddorau'r ddaear.

www.nationaltrust.org.uk/giants-causeway

GLASGOW, DINAS CERDD

Cerddoriaeth yw calon Glasgow, gyda dros hanner miliwn o ddinasyddion sy'n mwynhau gigs a cherddoriaeth o bob genre, ar unrhyw noson o'r wythnos, drwy gydol y flwyddyn – dinas sy'n enwog am egni a brwdfrydedd ei chynulleidfaoedd.

www.glasgowlife.org.uk/glasgow-unesco-city-of-music

MUR HADRIAN

Credit: Venerdì 6

Adeiladwyd o Afon Tyne i Foryd Solway gan yr Ymerawdwr Hadrian yn AD 122. Darganfyddwch olion caerau, tyrau, tyredi a threfi, yn ogystal ag arteffactau Rhufeinig prin.

www.visithadrianswall.co.uk

Y 'LIVING COAST' - BRIGHTON & LEWES DOWNS

Credit: SarahLouise

Mae dinasoedd bywiog Brighton & Hove a Lewes wedi'u lleoli wrth galon y biosffer hwn yn Sussex. O'r South Downs i'r clogwyni sialc prydferth, yn ymestyn rhwng dwy afon – dewch i anadlu awyr iach y Living Coast!

www.thelivingcoast.org.uk

MANCEINION, DINAS LLÊN

Gyda dros 200 o ieithoedd llafar, dwy ysgol ysgrifennu, tair asiantaeth ysgrifennu, deg o gyhoeddwyr annibynnol, 40 o wyliau celfyddydol a diwylliannol, 23 o lyfrgelloedd cyhoeddus, dau dŷ llenyddol a thros 18 o siopau llyfrau. Dyma le i ddarllen, lle i ysgrifennu, lle i ymweld ag e.

www.manchestercityofliterature.com

GREENWICH ARFOROL

Credit: Alena

Pensaernïaeth a thirlun o bwysigrwydd rhyngwladol, gorchestion artistig, ymdrechion gwyddonol mewn safle ymchwil astronomegol, a chysylltiadau brenhinol – yn Greenwich daw'r rhain oll at ei gilydd i ddatgelu stori Prydain ar y môr, a hanes cadw amser, mordwyo a fforio.

www.greenwichworldheritage.org

MOURNE GULLION STRANGFORD

Tirlun syfrdanol sy'n rhychwantu siroedd Armagh a Down. Yn cwmpasu golygfeydd aruthrol mewn lleoliad morol a mynyddig, mae hwn yn fan dramatig a luniwyd gan dân ac iâ: byd gwahanol, byd sy'n werth ei archwilio.

www.mournegullionstrangfordgeopark.com

NEW LANARK

Credit: Carole

Pentref melin 18fed ganrif unigryw ger yr Afon Clyde. Wedi'i sefydlu yn 1785 gyda ffocws ar ddyngarwch, addysg a lles y gweithwyr, daeth New Lanark yn fodel ar gyfer cymunedau diwydiannol a ledodd ar draws y byd.

www.newlanark.org

GOGLEDD DYFNAINT

Credit: chris2766

O weundiroedd gwyntog, ar hyd afonydd troellog, tir ffermio traddodiadol a fforestydd glaw mwyn, heibio cymunedau arfordirol hanesyddol, i amgylchedd morol amrywiol. Mae'r tirluniau a'r morluniau prydferth o fewn ac o gwmpas Biosffer Gogledd Dyfnaint wedi ysbrydoli nifer o artistiaid ac awduron dros y canrifoedd.

www.northdevonbiosphere.org.uk

PERTH, DINAS CREFFTAU A CHELF WERIN

Yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, Perth yw calon yr Alban. Dyma gartref i rai o weithwyr creadigol mwyaf cyffrous y wlad, sy'n arbenigo mewn tecstiliau, gwydr a gwaith arian. Mae crefftau yn rhan annatod o orffennol a dyfodol y ddinas.

www.perthcity.co.uk

DYFRBONT A CHAMLAS PONTCYSYLLTE

Credit: Manuta

Yn cwmpasu 11 milltir o gamlas a chefn gwlad trawiadol a 32 o strwythurau rhestredig, mae Dyfrbont Pontcysyllte, a adeiladwyd gan Thomas Telford, wedi cael ei ddisgrifio fel 'campwaith o athryllith greadigol.' Mae'r enw'n cyfleu sut mae'r bont yn 'cysylltu' ochrau'r dyffryn.

www.pontcysyllte-aqueduct.co.uk

GERDDI BOTANEG BRENHINOL, KEW

Credit: Elena

Gyda mwy na 320 acer o dirlun hanesyddol, mae Gerddi Kew yn un o atyniadau mwyaf poblogaidd Llundain ac yn ganolfan flaenllaw ar gyfer gwyddoniaeth fotanegol a mycolegol, ac yn un o drysorau garddwriaethol y DU.

www.kew.org

SALTAIRE

Un o bentrefi diwydiannol mwyaf, a mwyaf cyflawn, y 19eg ganrif. Adeiladodd Titus Salt felinau tecstiliau, adeiladau cyhoeddus a thai i'r gweithwyr yn y steil Eidalaidd. Dylanwadodd y dadofalaeth ddyngarol Fictorianaidd hon ar les cymdeithasol a chynllunio diwydiannol.

www.bradford.gov.uk/saltaire

SHETLAND

Credit: Yuriy Chertok

Mae daeareg Shetland yn fwy amrywiol nac unrhyw ardal o faint tebyg yn Ewrop, a gellir gweld ei ddylanwad ym mhob agwedd o fywyd, nawr ac yn y gorffennol. Mae'r Geoparc Byd-eang yn dathlu'r dreftadaeth hynod hon a'i chysylltiadau cynhenid i holl fywyd ar yr ynysoedd.

www.shetlandamenity.org/geopark-shetland

TIRWEDD LLECHI GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU

Credit: Lewis

Stori o esblygiad, o gymdeithas amaethyddol i un oedd yn dibynnu ar y diwydiant llechi. Mae trefi, chwareli a chysylltiadau trafnidiaeth yn cerfio'u ffordd drwy fynyddoedd Eryri tuag at y porthladdoedd a adeiladwyd er mwyn allforio'r cynnyrch, pobl a thechnoleg i'r byd.

www.llechi.cymru

DARGANFYDDWCH SAFLEOEDD UNESCO'R DU

unesco UK Commission

GREAT BRITAIN & NORTHERN IRELAND

Made possible with Heritage Fund

YR ARDAL DDU

Ardal o dreftadaeth ddaearegol, ddiwydiannol a diwylliannol arbennig a ddatblygodd oherwydd yr adnoddau naturiol a ddefnyddiwyd yma i greu cytref drefol gynta'r byd. Man lle mae treftadaeth ddiwydiannol yn mynd law yn llaw gyda natur.

www. blackcountrygeopark.dudley.gov.uk/bcg

TIRLUN DIWYDIANNOL BLAENAFON

Credit: Torfaen Council

Yn dyst i ymdrech arwrol dyn, ac wedi'i lunio gan ddwy ganrif o fwynglloddio glo a chynhyrchu haearn. Heddiw, mae olion y diwydiant yn parhau i'n hatgoffa mewn ffordd rymus o sut wnaeth y chwyldro diwydiannol newid y byd.

www.visitblaenavon.co.uk

PALAS BLENHEIM

Adeiladwyd fel arwydd o ddiolch i Ddug Marlborough am y fuddugoliaeth ym Mrwydr Blenheim yn 1704. Cynlluniwyd y tirluniad addurnol gan Capability Brown, a'r palas oedd man geni a chartref cyndadau Sir Winston Churchill.

www.blenheimpalace.com

BRADFORD, DINAS FFILM

Credit: Roger V Moody

Mae lleoliadau ffilm Bradford yn gwneud y dref yn ganolfan ryngwladol ar gyfer y diwydiant ffilm. Mae dathliadau niferus y ddinas o ddelweddau symudol yn cynnwys gwyliau ffilm, digwyddiadau sy'n gysylltiedig â ffilm, a dull unigryw o ddysgu am ffilm.

www.bradford-city-of-film.com

BRYSTE, DINAS FFILM

Yn gartref i Aardman Animations ac Uned Astudiaeth Natur y BBC, mae Bryste wedi bod yn cynhyrchu cynnwys sgrîn o'r ansawdd uchaf ers degawdau. Fel canolfan flaenllaw ar gyfer y diwydiant ffilm, mae'r ddinas yn gartref i 11 o wyliau ffilm rhyngwladol ac yn gweld dros 1,000 o ddyddiau ffilmio bob blwyddyn.

www.bristolcityoffilm.co.uk

EGLWYS GADEIRIOL CAERGAINT, ABATY SANT AUGUSTINE, AC EGLWYS SANT MARTIN

Credit: Alexey Fedorenko

Wedi'i sefydlu gan Sant Augustine yn 597 AD, mae Eglwys Gadeiriol Caergaint wedi bod yn sedd i ben Eglwys Lloegr am bron i bum canrif. Mae'n fan addoli, yn gyrchfan pererindod bwysig, ac yn gampwaith o gelf a phensaernïaeth.

www.canterbury-cathedral.org

DUNDEE, DINAS CYNLLUNIO

Credit: Velma Pickles

Mae arloesi yn elfen allweddol yn stori dinas Dundee. Mae ei hamgueddfeydd, atyniadau, siopau, barau a bwytai yn amlygu cymunedau a chynlluniwyr creadigol ffynniannus sy'n gwneud y ddinas yn ganolfan gynllunio sydd ar flaen y gad.

www.cityofdesigndundee.com

CASTELL AC EGLWYS GADEIRIOL DURHAM

Os byddwch yn ymweld ag Eglwys Gadeiriol a Chastell Durham, bydd y ddrama weledol yn sicr o'ch ysbrydoli. Dewch i archwilio pensaernïaeth ganoloesol orau Ewrop a dysgwch am y seintiau a'r Tywysog-Esgobion canoloesol. Man addoli, dysgu a phreswylio am dros 1,000 o flynyddoedd.

www.durhamworldheritagesite.com

CAEREDIN, DINAS LLÊN

Credit: RodrigoVA

Mae'r gair ysgrifenedig ac adrodd straeon ar lafar wedi bod yn rhan annatod o fywyd celfyddydol a diwylliannol Caeredin ers canrifoedd. Oherwydd cyfraniad digymar y ddinas i fyd llên, enwyd Caeredin yn Ddinas Greadigol Llên gynta'r byd yn 2004.

www.cityofliterature.com

ARDAL Y LLYNNOEDD, LLOEGR

Credit: Alicia

Crëwyd harddwch a harmoni eithriadol Ardal y Llynnoedd Lloegr drwy ganrifoedd o ffermio traddodiadol. Cyfunodd grymoedd cymdeithasol a diwylliannol i ddiogelu tirluniau, gan esgor ar y syniad fod gan bawb yr hawl i fwynhau eu hamgylchedd.

www.lakesworldheritage.co.uk

RIVIERA LLOEGR

Credit: English Riviera Geopark

Mae'r môr a'r tir yn cwrdd ar hyd yr arfordir 22 milltir hwn, uniad o nifer o fydoedd a chynefinoedd, wedi'u llunio gan brosesau naturiol, gan greu amgylchedd sy'n darparu lloches ar gyfer pobl nawr ac yn y gorffennol. Mae'r tirlun yn cynnwys ogofeydd naturiol, traethau, moroedd glas pefriol, a chymuned fywiog.

www.englishrivierageopark.org.uk

CAERWYSG, DINAS LLÊN

Mae gan Gaerwysg (Exeter) hanes llenyddol parhaus sy'n mynd nôl i'r 10fed ganrif. Gyda ffocws ar lenyddiaeth a llesiant, mae'r ddinas yn enwog am Lyfr Caerwysg, cyrsiau bibliotherapi arloesol, a pheiriant gwerthu llyfrau Penguin.

www.exetercityofliterature.com

CALON ORKNEY NEOLITHIG

Tua 5,000 o flynyddoedd yn ôl, dechreuodd pobl adeiladu cofadeiliau a thai o gareg yn Orkney. Mae'r hyn a erys yn gampweithiau cynllunio ac adeiladu neolithig. Mae'r safle'n cynnig mewnwelediadau anghredadwy i gymdeithas, sgiliau a chredoau ysbrydol y cymunedau a'u cynhyrchodd.

www.historicenvironment.scot/advice-and-support/listing-scheduling-and-designations/world-heritage-sites/heart-of-neolithic-orkney

CEUNANT IRONBRIDGE

Credit: Geoff Pickering

Symbol o'r Chwyldro Diwydiannol. Mae holl elfennau o'r cynnydd a gyfrannodd tuag at ddatblygiad y rhanbarth diwydiannol hwn yn y 18fed ganrif i'w gweld yma, o ffwrnais chwyth Coalbrookdale i'r Iron Bridge, y cyntaf o'i math yn y byd.

www.ironbridgegorgewhs.co.uk

YNYS MANAW

Bywyd gwyllt rhyfeddol a chyfleoedd gwych i wylio natur ar dir a môr. Mae gan Fiosffer Ynys Manaw Warchodfa Natur Genedlaethol, gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol ac arsyllfa adar, 10 o Warchodfeydd Natur Morol a 25 Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Profwch dreftadaeth gyfoethog a diwylliant bywiog, a mwynhewch gynnyrch lleol blasus.

www.biosphere.im

YNYS WYTH

Darganfyddwch draddodiad cryf o weithredu amgylcheddol a mentrau sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn hybu ymgysylltu cymunedol a ffordd iachach o fyw. Mae'r ynys yn gweithio i ddatblygu eco-dwristiaeth, meithrin arloesi amgylcheddol a phrofi mesurau newydd ar gyfer lliniaru ac addasu i newid hinsawdd.

www.wightaonb.org.uk/about-us/what-we-do/projects/iow-candidate-biosphere

ARSYLLFA JODRELL BANK

Credit: David Matthew Lyons

Un o arsyllfeydd radio astronomeg pwysica'r byd. Mae wedi bod yn flaenllaw mewn darganfyddiadau gwyddonol ac ar flaen y gad mewn astroffiseg fodern ers 1945. Heddiw, mae'n parhau i chynysylltu pobl â'r gofod drwy ddarparu cyfleoedd sy'n ysbrydoli.

www.jodrellbank.net/world-heritage-site-nomination

LERPWL, DINAS CERDD

Credit: Pete

Mae gan Lerpwl sîn cerddoriaeth gyfoethog ac amrywiol, gyda neuaddau, gwyliau a busnesau cerdd, a threftadaeth gerdd godidog. Os ydych chi'n ffan, yn dwrist neu'n fusnes cerdd, dyma un o'r dinasoedd gorau yn y byd.

www.liverpoolmusiccity.com

GOGLEDD Y PENWYNION

Un o fannau mwyaf arbennig Lloegr, mae Gogledd y Penwynion yn dirlun syfrdanol o weundiroedd grug a thir mawn agored, dyffrynnoedd deniadol a dolydd gwair, afonydd gwyllt y tir uchel, coedwigoedd hyfryd, a chymunedau croesawgar.

www.northpennines.org.uk

UCHELDIROEDD Y GOGLEDD ORLLEWIN

Credit: Tim Hamlet

Cornel leiaf poblog Ewrop, gyda thirluniau mynyddig hynod, traethau tywod, aneddiadau hynafol a chymunedau pellennig. Yn y Geoparc hwn ceir hyd i nifer o wahanol fathau o ffurfiannau craig sy'n cwmpasu dwy ran o dair o hanes y Ddaear.

www.nwhgeopark.com

NORWICH, DINAS LLÊN

Credit: Visitnorwich

Cartref i straeon ac awduron a newidiodd y byd am dros 900 mlynedd. Mae ei hecoleg ffyniannus o ysgrifenwyr, darllenwyr, siopau llyfrau, llyfrgelloedd, prifysgolion, cyhoeddwyr a digwyddiadau, a'r National Centre for Writing, yn gwneud y ddinas yn lle arbennig ar gyfer llenyddiaeth.

www. nationalcentreforwriting.org.uk/unesco-city-of-literature

NOTTINGHAM, DINAS LLÊN

Mae mil o flynyddoedd o dreftadaeth lenyddol chwedlonol yn byrlymu drwyddo i mewn i sîn cyfoes bywiog ac amrywiol. Mae'n defnyddio ei dalent unigryw gyda geiriau i adeiladu dyfodol gwell o fewn dinas sy'n llawn straeon: yn barod i chi'i ddarganfod a'i fwynhau.

www.nottinghamcityofliterature.com

HEN DREF A THREF NEWYDD CAEREDIN

Diolch i'r ffordd mae'r Hen Dref a'r Dref Newydd wedi'u cyfosod, mae canol dinas Caeredin o arwyddocâd pensaernïol enfawr. Daw cymeriad unigryw'r ddinas o'r gwrthgyferbyniad trawiadol rhwng yr Hen a'r Newydd.

www.ewh.org.uk

PALAS SAN STEFFAN AC ABATY WESTMINSTER GAN GYNNWYS EGLWYS SANTES MARGED

Credit: Mistervlad

Mae'r safle'n cynrychioli'r daith o gymdeithas ffiwdal tuag at ddemocratiaeth fodern. Mae Palas San Steffan yn parhau i fod yn gartref i'r Senedd, tra bo'r holl frenhinoedd a breninesau ers y 11eg ganrif wedi cael eu coroni yn Abaty Westminster. Mae Eglwys Santes Marged wedi bod yn fan addoli i Aelodau Seneddol ers 1614.

www.westminster.gov.uk/world-heritage-site

SANT KILDA

Cartref am filoedd o flynyddoedd i gymuned oedd yn byw oddi ar nythfeydd anferth adar y môr, moroedd cyfoethog a ffermio ar raddfa fach. Wedi i'r trigolion olaf adael yn 1930, ildiwyd yr ynysoedd i natur ac maent yn gartref i'r nythfa bwysicaf o adar y môr yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd.

www.nts.org.uk/visit/places/st-kilda

CÔR Y CEWRI, AVEBURY A SAFLEOEDD CYSYLLTIEDIG

Credit: Charles

Mae Côr y Cewri, Avebury a safleoedd eraill gerllaw yn ffurfio Safle Treftadaeth y Byd o henebion cynhanesyddol arbennig sy'n dyddio nôl dros 5,000 o flynyddoedd. Côr y Cewri yw un o gylchoedd cerrig cynhanesyddol mwyaf soffistigedig y byd, ac Avebury yw'r mwyaf. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ffurfio tirlun heb ei ail.

www.stonehengeandaveburywhs.org

PARC BRENHINOL STUDLEY GAN GYNNWYS ADFEILION ABATY FOUNTAINS

Credit: NT.JShepherd2022

Lle unigryw a grëwyd gan ddwy foment hanesyddol. Mae cryfder canoloesol yn cyfuno gydag egsentrigrwydd y 18fed ganrif i greu tirlun llawn cyfrinachau, hynodion a golygfeydd syfrdanol.

www.nationaltrust.org.uk/visit/yorkshire/fountains-abbey-and-studley-royal-water-garden

TWR LLUNDAIN

Credit: Wadll

Yn un o adeiladau mwyaf eiconig Lloegr, Tŵr Llundain yw'r esiampl fwyaf cyflawn o balas caerog o'r 11eg ganrif yn Ewrop. Adeiladodd Wiliam y Concwerwr y Tŵr Gwyn yn 1066 er mwyn dangos pŵer y Normaniaid, gan ei leoli'n strategol ar Afon Tafwys.

www.hrp.org.uk/tower-of-london

WESTER ROSS

Credit: Travelwitness

Wedi'i amgylchynu gan fynyddoedd, glens pellenig a straths (cymoedd) serth. Dyma fan lle mae pobl eisoes yn byw'n gynaliadwy – yn dysgu am eu cynefin, gan gynnwys treftadaeth naturiol a diwylliannol, a lle mae croeso i ymwelwyr.

www.wrb.scot

EFROG, DINAS CELFYDDYDAU'R CYFRYNGAU

Yn ninas Efrog, mae diwylliant a threftadaeth eithriadol yn cwrdd â dull cyfoes o weithio creadigol. Yn gartref i sîn gerddoriaeth amrywiol, digwyddiadau a gwyliau mawr, a theatrau a galeriau, mae diwylliant wrth galon dinas Efrog.

www.guildofmediaarts.com

UNESCO YN Y DU

Sefydlwyd UNESCO – Mudiad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig – yn 1945 wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd. Cenhadaeth y sefydliad yw hybu heddwch, datblygu cynaliadwy a deialog rhyngddiwylliannol drwy addysg, y gwyddorau, diwylliant, cyfathrebu a gwybodaeth.

Mae Comisiwn Cenedlaethol y DU yn cefnogi cyfraniad y DU i UNESCO ac yn dod â buddion UNESCO i'r DU. Drwy godi ymwybyddiaeth o fannau mwyaf arbennig y byd, rydym yn annog mwy o bobl i ddarganfod diwylliant, natur a threftadaeth neilltuol y DU.

Mae safleoedd UNESCO yn y DU yn cynnwys 29 o Safleoedd Treftadaeth y Byd, 13 Dinas Greadigol, 9 Geoparc Byd-eang a 7 o Warchodfeydd Biosffer. Dangosir hwy oll ar y map darluniedig yma a gynlluniwyd gan Tom Woolley.

Cynhyrchwyd y map gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO fel rhan o Local to Global, ac fe'i gwnaed yn bosib gan y GREAT Campaign a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

www.unesco.org.uk/local-to-global

@UNESCOUK

Lawrlwythwch fersiwn digidol o'r map

unesco UK Commission

GREAT BRITAIN & NORTHERN IRELAND

Made possible with Heritage Fund

unesco

Sites in the UK and Crown Dependencies

Gwarchodfeydd biosffer
Dinasoedd creadigol
Geoparciau byd-eang
Safleoedd Treftadaeth y Byd

Calon Orkney Neolithig
Shetland
Ucheldiroedd Y Gogledd Orllewin
Sant Kilda
Wester Ross
ALBAN
Dundee, Dinas Cynllunio
Perth, Dinas Crefftau A Chelf Werin
Mur Antoninus
CAEREDIN
Glasgow, Dinas Cerdd
New Lanark
Pont Forth
Caeredin, Dinas Llên
Hen Dref A Thref Newydd Caeredin
CAEREDIN
Sarn Y Cawr Ac Arfordir Y Sarn
Galloway A De Swydd Ayr
Mur Hadrian
Castell Ac Eglwys Gadeiriol Durham
GOGLEDD IWERDDON
Belffast, Dinas Cerdd
Gogledd Y Penwynion
Ardal Y Llynnoedd, Lloegr
Parc Brenhinol Studley Gan Gynnwys Adfeilion Abaty Fountains
Ynys Manaw
Ardal Llynnoedd Cuilcagh
Mourne Gullion Strangford
N
W
E
S
Saltaire
Bradford, Dinas Ffilm
Efrog, Dinas Celfyddydau'r Cyfryngau
Lerpwl, Dinas Cerdd
Manceinion, Dinas Llên
GeoMôn
JArsyllfa Jodrell Bank
Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd
Dyfrbont A Chamlas Pontcysyllte
Melinau Cwm Derwent
Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
Nottingham, Dinas Llên
Ceunant Ironbridge
Biosffer Dyfi
Yr Ardal Ddu
Norwich, Dinas Llên
LLOEGR
CYMRU
Palas San Steffan Ac Abaty Westminster Gan Gynnwys Eglwys Santes Marged
Twr Llundain
Greenwich Arforol
Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew
LLUNDAIN
Tirlun Diwydiannol Blaenafon
Palas Blenheim
Fforest Fawr
Bryste, Dinas Ffilm
LLUNDAIN
Dinas Caerfaddon A Thref Sba Fawr Ewrop
Eglwys Gadeiriol Caergaint, Abaty Sant Augustine, Ac Eglwys Sant Martin
Gogledd Dyfnaint
Côr Y Cewri, Avebury A Safleoedd Cysylltiedig
Y 'Living Coast' – Brighton & Lewes Downs
Arfordir Dorset A Dwyrain Dyfnaint
Caerwysg, Dinas Llên
Ynys Wyth
Tirwedd Mwyngloddio Cernyw A Gorllewin Dyfnaint
Riviera Lloegr